## Gweddi'r Atgyfodiad

Duw yr Atgyfodiad, dyrchafwn lef, fel pobl y dioddefaint mewn byd o ddoluriau a thymhestloedd.
Yr ydym yn byw mewn byd sydd yn ein hatgoffa yn barhaus o Wener y Groglith,
lle gwelir y diniwed yn dioddef a marw,
lle daw tywyllwch dudew hanner dydd i ddileu'r goleuni,
lle gwelir gobeithion a breuddwydion yn diflannu yng nghysgod y trais a'r bychanu,
lle mae'r drwg fel pe bai'n chwerthin ar ein pennau ac yn rhoddi'r argraff ei fod i lwyddo maes o law.

Duw yr Atgyfodiad, dyhëwn am ddarganfod unwaith eto dy bresenoldeb hael, a theimlo drachefn y wefr o ganfod dy nerth ar waith; cerddwn gam wrth gam tuag at y beddau yn ein bywyd gan ddyheu am ddarganfod eu bod yn gwbl wag.

Tyrd i'n calonnau a'n llygaid a'n clustiau'r funud hon a'r Pasg hwn; ac i'n bywydau chwilfrydig y bore hwn a'r awr a'r funud dyngedfennol hon. Yn enw Crist, yr Un na fedrai bywyd na chariad mo'i anghofio, yr hwn sydd â'i obaith bywiol yng ngrym yr Atgyfodiad, sydd yn plannu llawenydd yn ein bywydau a gwytnwch yn ein gwythiennau, ac yn ein galluogi ninnau i gerdded yn ôl traed Gorchfygwr y Groes.

'Tystiolaeth llu'r merthyri sydd
o blaid y ffydd ysbrydol;
O Dduw, wrth gofio'u haberth hwy,
gwna'n sêl yn fwy angerddol.'

Gwroldeb dros wirionedd yr Atgyfodiad yw ein braint ni heddiw, a dywedwn o'r newydd:

'Er mwyn y gair, er mwyn yr Oen,
er mwyn ei boen a'i gariad,
gwna ni'n ddisyflyd dros y gwir,
a gwna ni'n bur ein rhodiad.'

Yn ei Enw. Amen.